# Cefnogaeth Digwyddiadau i Gymrodyr CDdC – Panel Adolygu

## Cylch Gorchwyl

Mae'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol (PDC) wedi sefydlu un panel adolygu neilltuol er mwyn craffu ceisiadau a dderbynnir am arian drwy'r Cynllun Cefnogaeth Digwyddiadau i Gymrodyr CDdC, mewn ffordd deg, gytbwys a thryloyw, a chynnig argymhellion ar y ceisiadau hynny.

### CEFNDIR CYNLLUN CEFNOGAETH DIGWYDDIADAU I GYMRODYR CDDC A'R BROSES ADOLYGU.

Mae'r Cynllun Cefnogaeth Digwyddiadau i Gymrodyr CDdC yn gwahodd ceisiadau gan Gymrodyr i gael cymorth CDdC i drefnu digwyddiadau. Mae gan y cynllun dair rownd bob blwyddyn. Mae manylion llawn y cynllun ar gael ar wefan CDdC: Cefnogaeth Digwyddiadau i Gymrodyr CDdC - Cymdeithas Ddysgedig Cymru

Mae'r broses adolygu yn cychwyn gyda sgôr gychwynnol gan staff CDdC, gan gynwys sylwadau yn seiliedig ar ddichonoldeb, sut mae'r cais yn cydfynd â Strategaeth CDdC, ac argaeledd staff i gefnogi. Yna, mae argymhellion y staff a'r ceisiadau llawn yn cael eu rhannu gyda'r panel adolygu er mwyn i'r panel hwnnw wneud penderfyniad terfynol, drwy e-bost, ar ddyrannu'r arian.

### AELODAETH

1. Mae'r aelodaeth safonol yn cynnwys saith Cymrawd creiddiol sydd â phrofiad mewn ystod eang o feysydd:
    - Cadeirydd (aelod o'r PDC)
    - Chwech o aelodau cyffredinol
2. Pan fydd y panel adolygu yn gweld yr angen am fewnbwn arbenigol pellach, neu os nad yw aelodau o'r panel ar gael yn ystod y cyfnod pan fydd rhaid dod i benderfyniad, fe all y panel gyfethol hyd at ddau Gymrawd sydd wedi'u hethol yn Gymrodyr CDdC.
3. Wrth benodi aelodau, bydd y PDC yn ystyriol o ymrwymiad y Gymdeithas i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i Chynllun Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
4. Bydd y cworwm ar gyfer adolygu pob rownd o geisiadau (drwy e-bost) yn bedwar aelod a rhaid i hynny gynnwys y cadeirydd neu aelod dirprwyedig o'r PDC.
    a. Os bydd hi'n amlwg ymlaen llaw na fydd hi'n bosib cael cworwm yn y panel, bydd y Cadeirydd yn penderfynu a ddylid cyfethol Cymrawd neu Gymrodyr i sicrhau'r cworwm hwnnw.

b. Os na fydd y panel yn llwyddo i sicrhau cworwm yn ystod y cyfnod adolygu, ni fydd yr adolygiad hwnnw yn parhau gan na fyddai'r broses yn un deg. Dylid oedi'r cyfnod adolygu hyd nes y llwyddir i sefydlu panel sydd â chworwm.

5. I hwyluso'r broses, dylid rhannu cyfeiriad e-byst i aelodau eraill o'r panel, gyda chaniatâd yr holl unigolion.
6. Mae'r Swyddog Digwyddiadau ar gael i gynnig cymorth ysgrifenyddol.

## PENODI AELODAU

1. Y PDC fydd yn penodi pob aelod.
2. Caiff aelodau a benodir ac aelodau cyfetholedig wasanaethu am dymor o 2 flynedd, neu unrhyw gyfnod byrrach a bennir gan y corff penodi. Byddant yn gymwys i wasanaethu am ddim hirach na dau dymor yn olynol, a bydd angen wedyn i gyfnod pellach o dair blynedd fynd heibio cyn y gall unrhyw aelod o'r fath fod yn gymwys i gael ei ail-benodi.
3. Pan fydd pwyllgor angen aelod newydd er mwyn sicrhau'r aelodaeth lawn, bydd y tîm staff yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan yr holl Gymrodyr. Bydd y ddogfen cylch gorchwyl yn cael ei hanfon, ynghyd â pholisi cefnogi digwyddiadau i Gymrodyr CDdC, a dogfennau eraill atodol. Y PDC fydd yn penodi pob aelod o'r panel adolygu.
4. Os bydd y panel angen arbenigedd mewn maes penodol neu yn brin o amrywiaeth yn unol â strategaeth Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gymdeithas, fe nodir hynny pan gyhoeddir yr alwad am aelodau newydd. Oherwydd natur cynllun cefnogi digwyddiadau i Gymrodyr CDdC, fe all y PDC ddewis rhoi blaenoriaeth i ddatganiadau o ddiddordeb gan Gymrodyr o'r tu allan i Sefydliadau Addysg Uwch Cymreig, er mwyn lleihau unrhyw wrthdaro buddiannau. Gyda chytundeb y PDC, caniateir cefnogi'r dull cyffredinol hwn drwy gyfathrebu'n bwrpasol â rhai Cymrodyr neilltuol.
5. Os bydd panel angen arbenigedd pellach i weithredu ei gyfrifoldebau'n llwyr yn ystod unrhyw gyfnod o adolygu (sef tri chyfnod bob blwyddyn), caiff y PDC gyfethol un neu ragor o Gymrodyr.
6. Bydd gofyn i Gymrodyr gyflwyno datganiad o ddiddordeb ysgrifenedig a ffurfiol ar ffurflen gais safonol. Y PDC fydd yn gyfrifol am ystyried y wybodaeth a ddarperir a chytuno ar ba ymgeisydd i'w benodi yn seiliedig ar gydbwysedd ac amrywiaeth.
7. Bydd cadeirydd y panel, ynghyd â'r PDC, yn rhoi ystyriaeth i drosiant priodol o'i aelodaeth bob blwyddyn, i sicrhau cydbwysedd a pharhad a safbwyntiau newydd.

## GWRTHDARO BUDDIANNAU

1. Mae'r Gymdeithas wedi ymrwymo i sicrhau na fydd unrhyw duedd bersonol ynghlwm ag unrhyw benderfyniadau na'r prosesau o wneud penderfyniadau, a pheidio â rhoi ffafriaeth na thrin unrhyw unigolyn ynghlwm â'r Gymdeithas yn anffafriol. Mae gan y Gymdeithas ddyletswydd i sicrhau bod pob Aelod Pwyllgor yn deall beth yw ystyr "gwrthdaro buddiannau", a bod ganddynt gyfrifoldeb wrth gydnabod a datgan unrhyw wrthdaro a all godi. Diffinnir gwrthdaro buddiannau fel: *"set o amgylchiadau sy'n creu risg bod, neu y gallai, gallu unigolyn i roi barn neu weithredu ei swyddogaeth, gael ei amharu neu ei ddylanwadu gan ddiddordeb eilaidd".* Gallai gwrthdaro buddiannau fod yn rhywbeth sy'n effeithio ar aelod pwyllgor yn uniongyrchol, neu yn anuniongyrchol, drwy aelod o'r teulu, cyfaill, partner busnes, sefydliad neu gydweithredwr academaidd.

2. Dyma yw cyfrifoldebau'r panel:

- I gynnwys gwrthdaro buddiannau yn agenda ei gyfarfod:
    - Ar ddechrau pob cyfnod o adolygu, bydd y cadeirydd yn gofyn am unrhyw ddatganiadau o fuddiant cyn i'r aelodau gychwyn adolygu ceisiadau. Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat neu sefydliadol neu unrhyw ddiddordebau eraill perthnasol, mewn enwebiad.
- I leihau'r risg o wrthdaro buddiannau yn y broses enwebu:
    - Ni fydd unrhyw aelod panel sydd ynghlwm yn uniongyrchol â chais am arian drwy gynllun cefnogi digwyddiadau i Gymrodyr CDdC, yn cymryd rhan yn yr adolygiad ar gyfer y rownd honno.
    - Ni fydd unrhyw aelod panel sydd â'i sefydliad ynghlwm â chais am arian drwy gynllun cefnogi digwyddiadau i Gymrodyr CDdC, yn cymryd rhan yn yr adolygiad ar gyfer y rownd honno.
- I leihau'r risg o wrthdaro buddiannau o fewn y cyfnod adolygu:
    - Ni chaiff aelod panel sy'n adnabod ymgeisydd ychwanegu unrhyw wybodaeth bersonol am yr unigolyn nad yw wedi'i chynnwys yn y ffurflenni, ond caiff roi sylw ar yr hyn sydd ar y ffurflen os caiff wahoddiad gan y cadeirydd i wneud hynny.
    - Ym mhob achos, ni chaiff aelod(au) gymryd rhan yn y rownd honno o adolygu.

## CYFLWYNO ENWEBIADAU I'R PANEL ADOLYGU

1. Bydd tîm staff CDdC yn rhannu'r holl geisiadau gydag aelodau o'r panel adolygu ar ôl dyddiad cau y rownd honno.
2. Ar gyfer pob rownd, wedi iddynt dderbyn y ceisiadau, bydd aelodau o'r panel adolygu yn datgan unrhyw wrthdaro buddiannau, ac yn cadarnhau eu bod ar gael dros y cyfnod adolygu.
3. Yn seiliedig ar yr ymatebion hyn, bydd y cadeirydd yn dewis tri aelod cyffredinol o'r panel i barhau gyda'r broses ar gyfer y rownd honno.
4. Yna, bydd tîm staff CDdC yn rhannu eu hargymhellion a'u sgoriau ar gyfer y ceisiadau a dderbyniwyd. Bydd pob aelod o'r panel yn adolygu pob cais ar gyfer y rownd honno ac yn cynnig eu hargymhellion yn llawn.

## CYFRINACHEDD

Mae'r wybodaeth a'r ddogfennaeth sydd yn y ceisiadau am arian yn cael eu rhoi i aelodau o'r panel adolygu yn gyfrinachol, ac ni chaniateir, dan unrhyw amgylchiadau, trafod y cynnwys gydag unrhyw un, ac eithrio:

- Cyd aelodau o'r panel
- Aelodau o'r PDC (oni bai bod gwrthdaro buddiannau)
- Staff Cymdeithas Ddysgedig Cymru